**Grŵp Trawsbleidiol ar Blant**

**Dydd Mawrth 17 Ionawr 2017**

**Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead**

**12.30 – 13.30**

**Siaradwyr Gwadd**

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Yn bresennol**
Julie Morgan AC, Cadeirydd
David Melding AC
Helen West, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Huw Irranca-Davies AC,
Ryland Doyle, Ymchwilydd i Mike Hedges AC
Dilwyn Young-Jones, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Joe Champion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Kelly Harris, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Hywel Dafydd, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Abbie Morgan O'Sullivan, Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro
Adele Gilmour, Touch Trust
Bernadette Byrne, GAVO
Candice Ringer, Cyngor Bro Morgannwg
Carl Watkins, Cyngor Sir Casnewydd
Carol Davies, BASW Cymru
Carys Lovering, Dynamix
Charlotte Wooders, Y Rhwydwaith Maethu
Charlie Cable, SOVA
Debbie Donaldson, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Diane Daniel, Ymddiriedolwr i Tros Gynnal Plant
Jane M Maine, Dechrau'n Deg
Eleri Griffiths, Mudiad Ysgolion Meithrin
Elizabeth Williams, Voice
Fiona O'Sullivan, Ysbyty Spire Caerdydd
George Jones, Cyngor Caerdydd
Irene Davies, Myfyriwr - Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFST)
Jemma Wray, Plant mewn Angen y BBC
Jill Williams, Volunteering Matters
Jeannette Carr, Afasic Cymru
Joanne Mulcahy, Cyngor Carchardai
Lee Evans, Tros Gynnal Plant
Lucie Bush, Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd
Lynne Milne, Cyngor Dinas Casnewydd
Marco Gil-Cervantes, ProMo Cymru
Martin Mahoney, RCADC
Melanie Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Natalie Brimble, Tros Gynnal Plant

Natalie McDonald, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Nesta Lloyd-Jones, Cydffederasiwn GIG Cymru
Nikki Bacon, Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd
Pippa Clarke, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rebecca White, IICSA
Richard Davies, Prifysgol Aberystwyth
Sara Moran, Diabetes UK
Sharon Hughes, Hafan Cymru
Sian Erickson, Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd
Simon Antrobus, Plant mewn Angen y BBC
Stephanie Hoffman, ProMo Cymru
Vivienne Laing, NSPCC
Zein Pereira, Afasic Cymu

**Plant yng Nghymru**

Catriona Williams OBE, Plant yng Nghymru
Sean O'Neill, Plant yng Nghymru
Hannah Sharp, Plant yng Nghymru

**Ymddiheuriadau**
Simon Thomas AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Carolyn Harris AS
Chris Elmore AS
Judy Hutchings, Prifysgol Bangor
Julie Doughty, Prifysgol Caerdydd
Rachel Allen, Heddlu Gwent
Rosalyn Evans, Hafan Cymru

Dechreuodd Julie Morgan AC y cyfarfod drwy groesawu aelodau'r Grŵp a chyflwyno Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

Trafododd Sally Holland ei hadroddiad blynyddol diweddaraf a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad blynyddol.

I ddechrau, soniodd am yr argymhellion a oedd yn deillio o Sylwadau Clo Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn 2016 ymwelodd y grŵp ieuengaf erioed o blant Cymru â Brwsel i roi adroddiad gerbron y Cenhedloedd Unedig (CU). Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud cynnydd yn sgîl Sylwadau Clo Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd yn hyn o beth.

**Camau gweithredu yn sgîl Sylwadau Clo Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi rhoi sylwadau ar, neu, y mae'n galw am i:**

- Lywodraeth Cymru ymateb i'r argymhelliad ar y Rhaglen i Blant. Bydd Sally yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd yn hyn o beth.
- Yn dilyn diwygiadau i faes addysg ac iechyd, rhaid i'r sectorau hyn weithio gyda darparwyr hyfforddiant athrawon i hyrwyddo lles mewn ysgolion.
- Cyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol - cyflwynir ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod y mis nesaf.

- Canllawiau statudol cryfach mewn cysylltiad ag addysg yn y cartref, yn ychwanegol at y canllawiau anstatudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Mae cynnydd da wedi bod o ran ansawdd a nifer y bobl sy'n mabwysiadu plant yng Nghymru.
- Yn flaenorol, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld yr angen am gynllun tlodi plant ar wahân. Mae cyfle i gynnwys cynllun tlodi plant o fewn y Rhaglen Plant.
    - Roedd y Comisiynydd Plant yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad o ran ymosod cyffredin / cosb resymol lle y mae plant yn y cwestiwn.
    - Mae canllawiau ar y Mesur Teithio yn cael eu cymhwyso'n anghyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, a goblygiadau hyn yw bod plant yn agored i niwed, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ble y maent yn cerdded ar hyd ffyrdd gwledig i fynd i'r ysgol ac i ddod adref.
- Mae plant a phobl ifanc yn galw am ragor o gyfranogiad, ac am gael eu cynnwys yn amlycach yn y system addysg a hawliau addysgol. Mae plant a phobl ifanc am i ddysgu am eu hawliau fod yn rhan o'r cwricwlwm. Byddai cyflwyno hawliau yn y cwricwlwm yn sicrhau bod Cymru yn arloeswr yn y maes hwn.
- Datblygu Senedd Ieuenctid.

Mae gwaith presennol y Comisiynydd Plant yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth plant a phobl ifanc:

- **Bwlio:** Ymgynghorwyd â miloedd o blant a phobl ifanc am eu barn ar fwlio. Yn benodol, ar yr hyn y maent yn teimlo sy’n gweithio a’r hyn nad yw’n gweithio yn yr ysgol, yn eu barn hwy.
- **Cefnogaeth i rai sy’n gadael Gofal:** Mae trosglwyddo i fod yn oedolyn yn bryder gwirioneddol i’r rhai sy'n gadael gofal. Mae swyddfa'r Comisiynydd Plant yn cynnal rhaglen bontio tair blynedd i helpu yn hyn o beth. Caiff y fenter newydd hon ei lansio ym mis Mawrth, a bydd yn canolbwyntio ar y flwyddyn gyntaf ar ôl gadael gofal, gyda'r nod o wella mynediad at dai, cyflogaeth a lles.
- **Hawliau plant o ran cyrff cyhoeddus:** Bydd Sally Holland a Sophie Howe, y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, yr heddlu a'r celfyddydau, er mwyn deall yn well yr angen am i hawliau plant gael eu hymgorffori mewn gwasanaethau a sut y gellir cyflawni hyn.

Erbyn diwedd 2019, gobeithia’r Comisiynydd Plant y bydd Llywodraeth Cymru a’r gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddarparu'r gwelliannau canlynol ar gyfer plant:

- Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc, a hynny mewn modd amserol.
- Gwell dealltwriaeth o brofiadau plant o fwlio fel y mae heddiw, a bydd mwy o ysgolion yn atal bwlio’n effeithiol ac yn mynd i’r afael ag e.
- Gwell mynediad at weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden. Bydd gwaith yn dechrau yn hyn o beth ym mis Ebrill 2017 - yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd fwyaf tebygol o golli cyfle i gael y profiadau hyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anabledd neu sy’n byw mewn tlodi.
- Gwasanaethau pontio gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, gyda ffocws ar ddewisiadau tai diogel a chynigion gwirioneddol o ran gwaith, addysg neu hyfforddiant.
- Bydd gwell trefniadau pontio i wasanaethau oedolion ar gyfer yr holl bobl ifanc y mae angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus arnynt.

- Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol.
- Plant a phobl ifanc i ymwneud yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwaith y Comisiynydd Plant.

Diolchodd Julie Morgan AC i Sally a gwahoddodd sylwadau gan y Grŵp.

**Sesiwn drafod:**

***Cwestiwn gan Sian Erickson, Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd: A fyddwch yn ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda bwlis yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu bwlio?***

Ymateb:

- Bron yn ddi-os.
- Mae rhai ysgolion eisoes yn gweithio gyda phob un o'u disgyblion o ran bwlio.
- Mae arolygon yn dangos bod cyfran uchel o blant a phobl ifanc yn bwlio eraill yn ogystal â chael eu bwlio.
- Mae angen y cyfle ar blant a phobl ifanc i siarad am eu profiadau, ac am fod yn wyliwr.
- Mae bwlio yn cwmpasu sbectrwm eang o ymddygiadau, o weithred gas i weithred anghyfreithlon (e.e. ymosodiad).
- Mae plant a phobl ifanc yn gofyn yn aml a oes gan fwlis hawliau – er, nid yw pob plentyn yn meddwl y dylent fod â hawliau.
- Mae addysg perthnasoedd iach yn bwysig i ddysgu parch.

***Cwestiwn: Faint o waith o ran bwlio sy'n digwydd yn y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion?***

Ymateb: Mae KIVA yn gweithio mewn rhai ysgolion ochr yn ochr â rhaglenni eraill. Mae addysg perthnasoedd iach ehangach yn bwysig.

***Cwestiwn gan Vivienne Laing, NSPCC: Rwy'n falch o weld fod y weledigaeth ar gyfer 2019 yn cynnwys mynediad prydlon at gefnogaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Mae traean o'r holl gysylltiadau â Childline yn ymwneud â iechyd meddwl, a bu cynnydd yn yr achosion o hunanladdiad. A ydych yn fodlon ar y cynnydd a wnaed, ac yn fodlon y gall y canlyniadau gael eu cyflawni?***

Ymateb:

- Dechreuodd y rhaglen **Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc** (T4CYP) yn y pen clinigol, ond nid yn y GIG yn unig y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn. Wrthi'n chwilio am y staff cywir i fwrw ymlaen yn hyn o beth.
- Mae'r Byrddau Iechyd wedi nodi eu bod yn disgwyl cyflawni targedau atgyfeirio a phenodi llym newydd ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys. Gobeithio y bydd hyn yn atal plant a phobl ifanc rhag gorfod aros hyd at dair blynedd am asesiad cychwynnol. Mae angen mynd i'r afael â Lles ac iechyd meddwl yn gynt, i ddod dros y rhwystr hwn.
- Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn ofynnol ar gyfer nifer fechan o blant a phobl ifanc, ond nid dyma'r ateb gorau yn y cyfnodau cynnar, e.e. dyfodiad iselder.
- Mae angen i weithwyr addysg fod yn fedrus o ran lles ac iechyd meddwl – oherwydd mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i helpu plant a phobl ifanc.
- Mae llawer i'w wneud eto yn hyn o beth, ac mae hon yn flaenoriaeth enfawr a chymhleth sy'n gofyn am fuddsoddiad a gweithio mewn partneriaeth.

***Cwestiwn gan Joanne Mulcahy, Cyngor Carchardai: Mae'n galonogol clywed bod lles plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth. Er mwyn i waith ataliol ddigwydd, dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i weithio gyda'i gilydd ac yn effeithiol ar draws ffiniau.***

Ymateb: Dylai byrddau rhanbarthol fod yn gweithio ar y cyd.

***Cwestiwn gan Sean O'Neill, Plant yng Nghymru: Mae posibiliadau amlwg i Fil Cymru o ran pwerau ychwanegol i ostwng yr oedran pleidleisio i 16/17 mlwydd oed, ac rwy'n gobeithio y daw Cymru y wlad gyntaf yn y DU i ganiatáu hyn. Byddai gostwng yr oedran pleidleisio yn fodd o ymgysylltu ag addysg / hyfforddiant hawliau mewn ysgolion. Roedd yr agenda Tlodi Plant diwethaf yn cynnwys targedau ar gyfer 2020, a chynllun cyflenwi ar wahân o dan y strategaeth. Nid yw'n ymddangos bod archwaeth am hyn ar hyn o bryd, ac mae pryderon ynghylch ein cyfeiriad a'r iaith o ran tlodi plant.***

***Yn gyntaf, mae pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn gefnogol iawn i ostwng yr oedran pleidleisio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn, ac mae hyn yn darparu cyfle i archwilio materion yn y lleoliadau hyn, a byddai'n rhoi sylfaen wybodaeth dda i bobl ifanc am etholiadau yn y dyfodol a pham eu bod yn pleidleisio. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc sy'n pleidleisio'n gynnar yn fwy tebygol o barhau i bleidleisio drwy gydol eu hoes. Mae cyfle i ddysgu rhagor am sut i newid pethau, a dinasyddiaeth ac ati yn y lleoliadau hyn. Mae 'na archwaeth gref gan bobl ifanc i weithredu yn hyn o beth, yn enwedig yn dilyn y siom a oedd yn gysylltiedig â phleidlais Refferendwm yr UE.***

***Yn ail, mae ansicrwydd yn amlwg ar hyn o bryd o ran y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac nid ydym am golli'r prosiectau cryfaf a gwaith sydd wedi'i gyflawni yn sgîl y rhaglen honno. Mae gwaith sy'n ymwneud â Phrofiadau Plentyndod Anffafriol (ACE) i'w groesawu, ac mae gwaith blaenllaw yn cael ei wneud yng Nghymru yn y maes hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd ACE yn effeithio ar blant drwy gydol eu hoes, er bod pryderon o ran y ffocws ar Brofiadau Plentyndod Anffafriol a ffocws y rhaglen honno ar ymddygiad unigolion, sy'n aml yn gysylltiedig â thlodi. Nid ydym am golli'r awydd i leihau anghydraddoldeb a thlodi drwy ganolbwyntio ar ACE. Mae'n bwysig sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn colli golwg ar gydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi.***

***Ychwanegodd Marco Gil-Cervantes: Mae pobl ifanc yn ei chael hi'n bwysig i rannu cefnogaeth ac i rannu problemau â'i gilydd. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gymru wasanaeth gwybodaeth cydlynol ar gyfer plant a phobl ifanc, a heb hyn, sut y gellir disgwyl iddynt wybod pa drywydd i'w ddilyn? Nid yw diffyg gwasanaethau gwybodaeth awdurdodau lleol ar yr agenda!***

Ymateb: Nid wyf yn anghytuno. Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl a pherthnasau iach gorau yn cael eu harwain gan gyfoedion. Mae ymchwil academaidd wedi dangos mai addysg gan gyfoedion yw'r ffordd fwyaf effeithiol o newid ymddygiadau, er enghraifft, rhoi'r gorau i ysmygu.